



Cylch Gorchwyl 2019

Cynnwys

1. Rhagarweiniad
2. Cefndir

Strategaeth

3. Gweledigaeth, Datganiad Cenhadaeth ac Egwyddorion y Fenter
4. Nod ac Amcanion
5. Uwch Strategaeth Menter Iaith Abertawe
6. Sut Y Byddwn Yn Gwybod Ein Bod Yn Llwyddo

Llywodraethiant

7. Cyfarwyddwyr ac Awdurdod
8. Ariannu Menter Iaith Abertawe
9. Atebolrwydd
10. Strwythur Gwaith
11. Mekanwaith Cyfathrebu

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Yn y Cylch Gorchwyl hwn cyflwynir Strategaeth a Llywodraethiant Menter Iaith Abertawe.
- 1.2. Paratowyd y Cylch Gorchwyl cyntaf yn 2007 a dyma'r trydydd addasiad ohono a luniwyd yn dilyn gweithdai rhanddeiliaid yn ystod hydref 2018.
- 1.3. Dyddiad gweithredu'r Cylch Gorchwyl hwn yw 1 Ebrill 2019.

2. Cefndir

- 2.1. Crëwyd Menter Iaith Abertawe yn 2001 yn rhan o elusen a chanolfan Tŷ Tawe. Yn 2004 datblygodd y Fenter yn is-bwyllgor o Dŷ Tawe ac fe'i hymgorfforwyd yn swyddogol yn Gwmni Preifat Cyfyngedig drwy Warant sydd yn is-gwmni i Elusen Tŷ Tawe ym Medi 2008. Rhif y Cwmni gyda Thŷ'r Cwmnïau yw 06693822.
- 2.2. Cyfarwyddwyr Cwmni Menter Iaith Abertawe sydd yn gyfrifol am ei gweithredoedd a, thrwy Ysgrifennydd y Cwmni, am adroddiadau blynyddol i Dŷ'r Cwmnïau.
- 2.3. Cyllidir Menter Iaith Abertawe gan elusen Tŷ Tawe, gan Lywodraeth Cymru a chan amrywiol noddwyr a sefydliadau sydd yn prynu gwasanaethau a ddarperir gan y Fenter. Nid oes gan yr arianwyr hyn unrhyw gyfrifoldeb na rheolaeth ar Fenter Iaith Abertawe, ond wrth dderbyn arian gan y sefydliadau hyn, mae Menter Iaith Abertawe'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau i gyflawni dibenion yr arian a dderbynnir.

STRATEGAETH

3. Gweledigaeth, Datganiad Cenhadaeth ac Egwyddorion y Fenter

3.1. Gweledigaeth y Fenter:

Ein gweledigaeth yw bod yr iaith yn dod yn rhan ganolog o fywyd bob dydd yn Abertawe a bod pob dinesydd yn rhannu'r cyfrifoldeb am ei dyfodol a'i ffyniant. Mae angen i'r Gymraeg ddod yn iaith gymdeithasol, naturiol fel bod y genhedlaeth nesaf yn arddel balchder tuag ati i'r dyfodol.

3.2. Datganiad Cenhadaeth y Fenter yw:

Hwyluso cyfleoedd i bobl sir Abertawe fyw trwy gyfrwng y Gymraeg ac i fwynhau diwylliant Cymraeg yn eu bywydau bob dydd

3.3. Mae'r weledigaeth a'r datganiad cenhadaeth wedi eu seilio ar werthoedd craidd y Fenter, sef:

Cymraeg yn gyntaf Mentor a Herio	Cyfle Cyfartal Parchu'r amgylchfyd	Parch Cynnig cyfleoedd	Dyfalbarhad
-------------------------------------	---------------------------------------	---------------------------	-------------

3.4. Arweinia hyn at yr egwyddorion craidd canlynol:

- Bydd y Fenter yn gwneud popeth yn ei gallu i gefnogi pobl i ddysgu'r iaith ac i'w defnyddio. Bydd hyn yn gydnaws â'r nod o adfer y Gymraeg yn iaith teulu a chymuned yn Abertawe.
- Nid yw Menter Iaith Abertawe yn sefydliad pleidiol wleidyddol.

4. Nod ac Amcanion

4.1. Nod Menter Iaith Abertawe yw:

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy hybu ei defnydd a'r cyfleoedd i'w defnyddio i bawb o bob oedran, cefndir ac iaith yn sir Abertawe. Gwneud y Gymraeg yn gyraeddadwy i bobl Abertawe.

4.2. Amcanion Menter Iaith Abertawe yw:

- Amcan 1. Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sir Abertawe i ddefnyddio'r Gymraeg;
- Amcan 2. Datblygu cyfleoedd i oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn sir Abertawe ddatblygu a defnyddio eu Cymraeg a bod gwybodaeth am gyfleoedd dysgu Cymraeg ar gael;
- Amcan 3. Datblygu gallu'r sector gwirfoddol, preifat a statudol yn sir Abertawe i ddefnyddio'r iaith Gymraeg;
- Amcan 4. Cynnig cyfleoedd i bobl sir Abertawe ddefnyddio'r iaith Gymraeg drwy godi ymwybyddiaeth a marchnata'r cyfleoedd hyn

5. Uwch Strategaeth Menter Iaith Abertawe

Gan weithio yn ôl yr egwyddorion, gwerthoedd, nod ac amcanion uchod, gweithreda'r Fenter gynlluniau a weithia tuag at yr amcanion penodol.

5.1 Amcan 1. Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sir Abertawe ddefnyddio'r Gymraeg

- Adnabod a hwyluso cyfleoedd i alluogi rhieni neu ofalwyr/gwarchodwyr i gyflwyno'r iaith i fabanod a phlant cyn-feithrin
- Cynnig cyfleoedd i blant oed cynradd ac uwchradd i gymdeithasu yn y Gymraeg tu hwnt i'r ysgol
- Darparu gwybodaeth i'r rhai yn eu harddegau am y cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg yn eu cymunedau a'u galluogi i wneud penderfyniadau ieithyddol gwybodus annibynnol
- Cefnogi'r ymdrech i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn sir Abertawe hyd at addysg uwch

5.2. Amcan 2. Datblygu cyfleoedd i oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn sir Abertawe ddatblygu a defnyddio eu Cymraeg.

- Cefnogi Canolfan Gymraeg Tŷ Tawe i'w gwneud yn lle croesawgar i ddysgwyr ac i ddarparu cyfleoedd cymdeithasu penodol ar eu cyfer
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i alluogi dysgwyr i gael mynediad at gyrsgiau a chyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg
- Cydweithio gydag Academi Hywel Teifi i hyrwyddo'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i Oedolion a chyfleoedd ehangach

5.3. Amcan 3. Datblygu gallu'r sector gwirfoddol, preifat a statudol yn sir Abertawe i ddefnyddio'r iaith Gymraeg

- Annog sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan y cyhoedd
- Sicrhau fod gan drigolion sir Abertawe wybodaeth am wasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg

5.4. Amcan 4. Cynnig cyfleoedd i bobl sir Abertawe i ddefnyddio'r iaith Gymraeg drwy godi ymwybyddiaeth a marchnata'r cyfleoedd hyn

- Manteisio ar ganolfan Tŷ Tawe i gynnig calendr rheolaidd o weithgareddau sydd yn ymgyswng at yr amcanion hyn
- Sicrhau fod gwybodaeth ar gael i drigolion sir Abertawe am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac am ddigwyddiadau Cymraeg eu hiaith yn y sir
- Cydweithio gyda mudiadau lleol a chenedlaethol sydd yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Abertawe (e.e. Yr Urdd, Mudiad Meithrin, Merched y Wawr, Tyrfe Tawe, Y Coleg Cymraeg, Academi Hywel Teifi ac ati)
- Cefnogi ymdrechion i sicrhau fod y Gymraeg ar gael mewn technolegau a chyfryngau newydd

6. Sut Y Byddwn Yn Gwybod Ein Bod Yn Llwyddo

Bydd y Fenter yn defnyddio'r mesurau deilliant canlynol i sicrhau fod ein gweithgareddau'n effeithiol tuag at gyflawni'r amcanion:

6.1 Amcan 1. Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sir Abertawe ddefnyddio'r Gymraeg

- Twf blynyddol yn y niferoedd sy'n manteisio ar y cyfleoedd a ddarparwn
- Cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg tu hwnt i'r ysgol yn rheolaidd
- Cynnydd yn y cyfleoedd / gweithgareddau a gynigir i blant a phobl ifanc

6.2. Amcan 2. Datblygu cyfleoedd i oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn sir Abertawe ddatblygu a defnyddio eu Cymraeg a bod gwybodaeth am gyfleoedd dysgu Cymraeg ar gael yn rhwydd

- Cynnydd blynyddol yn y nifer o ddysgwyr Cymraeg sydd yn mynychu digwyddiadau yn Nhŷ Tawe
- Cynnydd blynyddol yn y nifer o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau / cyfleoedd cymdeithasu ledled sir Abertawe
- Arolwg blynyddol o ddysgwyr Abertawe a defnyddwyr Tŷ Tawe yn arfarnu safon y gweithgareddau a gynigir

6.3. Amcan 3. Datblygu gallu'r sector gwirfoddol, preifat a statudol yn sir Abertawe i ddefnyddio'r iaith Gymraeg

- Cynnydd yn nifer y sefydliadau sy'n dangos i gwsmeriaid bod modd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar
- Cynnydd yn y deunydd hwyluso defnydd o'r Gymraeg gweladwy yn sir Abertawe
- Cynnydd yn y nifer o gysylltiadau wnaed, ac a ddeliwyd gan Gyngor Sir Abertawe/Y Bwrdd Iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg

6.4. Amcan 4. Cynnig cyfleoedd i bobl sir Abertawe i ddefnyddio'r iaith Gymraeg drwy godi ymwybyddiaeth a marchnata'r cyfleoedd hyn

- Cynnydd yn y nifer o ymwelwyr â gwefan Menter Iaith Abertawe
- Cynnydd blynyddol yn y nifer sy'n mynychu siop Tŷ Tawe a digwyddiadau a gweithgareddau yn Nhŷ Tawe
- Cynnydd yn y niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg ar draws y sir (e.e. ffigyrau Taliesin a'r Grand)
- Hyrwyddo un prosiect technolegol blaengar yn flynyddol

Llywodraethiant

7. Cyfarwyddwyr ac Awdurdod

- 7.1. Penodir Cyfarwyddwyr Menter Iaith Abertawe yn ôl dymuniad y Cyfarwyddwyr eraill. Disgwylir bod lleiafrif o 8 Cyfarwyddwr ar Fenter Iaith Abertawe bob amser.
- 7.2. Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd wneud cais i fod yn Gyfarwyddwr ar Fenter Iaith Abertawe¹. Gall unigolyn gael ei enwebu neu gynnig ei hun yn ystod y cyfarfod blynyddol neu gyfarfodydd pwyllgor, ac yna cynhelir pleidlais breifat i gadarnhau aelodaeth. Mae angen i dros hanner y Cyfarwyddwyr fod o blaid aelodaeth y Cyfarwyddwr newydd cyn y gellir penodi'n derfynol.
- 7.3. Gan fod Menter Iaith Abertawe yn is-gwmni i elusen Tŷ Tawe mae'n ofynnol fod un o Ymddiriedolwyr yr elusen yn gyfarwyddwr ar Fenter Iaith Abertawe.
- 7.4. Swyddogaeth ddi-dâl yw bod yn gyfarwyddwr ar Fenter Iaith Abertawe, ond gellir hawlio treuliau rhesymol mewn achosion eithriadol a gytunir gan y Cyfarwyddwyr mewn cyfarfod o'r Cyfarwyddwyr.
- 7.5. Rhestrir y Cyfarwyddwyr i gyd yn yr adroddiad blynyddol a anfonir at Dŷ'r Cwmnïau ac sydd i'w weld yn gyhoeddus ar wefan Tŷ'r Cwmnïau.
- 7.6. Disgwylir i Bennaeth y Fenter fynychu pob cyfarfod Cyfarwyddwyr a rhoi adroddiad ar waith y Fenter a sefyllfa ariannol y Fenter yn ystod y misoedd blaenorol a'r misoedd i ddod. Pennaeth y Fenter yw Ysgrifennydd y Cwmni i Fenter Iaith Abertawe.
- 7.8. Pennir Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Thrysorydd y Cyfarwyddwyr yn ôl pleidlais flynyddol yn ystod y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir ym mis Ebrill yn flynyddol. Delir y swyddi hyn am gyfnod o ddwy flynedd fel rheol.
- 7.9. Gall y Cyfarwyddwyr gynnal pleidlais o ddiffyg hyder yn swyddogion (h.y. cadeirydd, is-gadeirydd a thrysorydd) a byddai'n rhaid i'r swyddog hwinnw ymddiswyddo o'i swydd yn sgil pleidlais yn cadarnhau diffyg hyder.
- 7.10. Gall Cyfarwyddwr ymddiswyddo yn ysgrifenedig ar unrhyw achlysur.
- 7.11. Os nad yw Cyfarwyddwr yn mynychu tri chyfarfod Cyfarwyddwyr heb reswm digonol terfynir ei aelodaeth fel Cyfarwyddwr.
- 7.12. Mae'n rhaid wrth gworwm o 4 Cyfarwyddwr i allu cynnal cyfarfod Cyfarwyddwyr.
- 7.13. Disgwylir i'r Cyfarwyddwyr roi arweiniad cadarn i'r Fenter, Pennaeth y Fenter a'i staff ar holl weithgareddau'r Fenter. Mae staff y Fenter yn atebol i Bennaeth y Fenter ac

¹ Trefnir gwiriadau perthnasol cyn penodi cyfarwyddwr i sicrhau nad yw'r unigolyn wedi ei ddiarddel rhag bod yn gyfarwyddwr gan yr awdurdodau penodol.

mae Pennaeth y Fenter yn atebol i Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli. Y Cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am waith a gweithgareddau Menter Iaith Abertawe a thrwy hynny yn gyfrifol am benodi, rheoli a disgyblu staff. Gall y Cyfarwyddwyr sefydlu is-bwyllgorau/gweithgorau pan fo hynny'n briodol gan ddirprwyo rhai materion iddynt neu i'r Pennaeth.

7.14. Mewn sefyllfa frys gall y Cadeirydd wneud penderfyniadau drwy unai:

- Rhoi argymhelliad drwy e-bost at y Cyfarwyddwyr oll a chael cytundeb y Cyfarwyddwyr ar ddull gweithredu (yn ddibynnol ar 10.4);
- Neu,
- Os yw hynny'n methu, cynnal cyfarfod brys rhwng y Cadeirydd, Trysorydd a'r Pennaeth gan gadarnhau penderfyniad drwy e-bost at weddill y Cyfarwyddwyr cyn gynted ag y bo modd (gan nodi 10.4).

7.15. Gwahoddir aelodau staff y Fenter i fynychu cyfarfod Cyfarwyddwyr yn achlysurol i roi adroddiad ffurfiol o'u gwaith ar ran y Fenter.

7.16. Gweler y strwythur ym mhwynt 9.4 isod.

8. Ariannu Menter Iaith Abertawe

8.1. Nodir dulliau ariannu Menter Iaith Abertawe yng nghymal 2.3.

8.2. Disgwylir i'r Trysorydd ddarparu adroddiad cryno o gyllid Menter Iaith Abertawe i'r Cyfarwyddwyr drwy adroddiad ariannol blynyddol yn ystod y Cyfarfod Blynyddol.

8.3. O anghenraid cynhwysir y Trysorydd mewn unrhyw drafodaethau cyflogi neu am wariant newydd.

9. Ymatebolrwydd


9.1. Mae Cyfarwyddwyr Menter Iaith Abertawe yn atebol am waith, diogelwch a chynladwyedd Menter Iaith Abertawe.

9.2. Mae disgwyl i Fenter Iaith Abertawe gydweithio'n glos gyda rhanddeiliaid i sicrhau fod y gwasanaeth yn effeithiol, effeithlon ac yn gweithredu'n ddarbodus. Gall y rhanddeiliaid gynnwys cyllidwyr a sefydliadau sy'n rhannu amcanion Menter Iaith Abertawe.

9.3. Mae Menter Iaith Abertawe yn atebol o ran derbyn a gwario cyllid i ddarparu'r y cyllid ar brosiectau penodol.

9.4. Gweler strwythur Menter Iaith Abertawe isod:

SIART GYFUNDREFNOL MENTER IAITH ABERTAWE



10. Strwythur Gwaith

- 10.1. Cyferfydd y Cyfarwyddwyr yn ddeufisol drwy'r flwyddyn. Disgwylir i'r Cyfarwyddwyr ystyried camau angenrheidiol i gyfarfod ag amcanion Menter Iaith Abertawe.
- 10.2. Gellir cynnal cyfarfodydd e-bost neu electronig yn ogystal â'r Cyfarfodydd deufisol pan benderfyna'r Cadeirydd a'r Pennaeth y byddai hyn yn fuddiol.
- 10.3. Bydd y Cadeirydd a Phennaeth y Fenter yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau'r Cyfarwyddwyr yn cael eu gweithredu. Disgwylir i'r penderfyniadau gael eu gweithredu cyn gynted ag y bo modd wedi'r cyfarfod.
- 10.4. Mae'n ofynnol cael cworwm o 4 Cyfarwyddwr yn bresennol i allu cynnal cyfarfod a gwneud unrhyw benderfyniad.
- 10.5. Bydd agenda ar gael ar gyfer pob cyfarfod yn ogystal â chofnodion o'r cyfarfod blaenorol.
- 10.6. Ymgynghorir ar unrhyw benderfyniad tyngedfennol gyda rhanddeiliaid y Fenter ac ystyrir unrhyw sylwadau pan fo'r Cyfarwyddwyr yn gwneud penderfyniad.

11. Mecanwaith Cyfathrebu

- 11.1. Taflennir dogfennau os nad ydynt ar gael o flaen llaw, ond ceisir sicrhau mai anaml y digwydd hynny a bod dogfennau ar gael o flaen llaw i'r Cyfarwyddwyr, yn electronig pan fo hynny'n bosib.

- 11.2. Cymraeg fydd iaith cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli ac iaith gwaith y Fenter. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen.
- 11.3. Darperir cofnodion cyfarfodydd yn y Gymraeg. Darperir crynodeb byr yn y Saesneg os oes angen.

Cymeradwywyd 31 Mawrth 2019